

# Cofnodion cryno – Cynulliad Cenedlaethol Cymru Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn

---

Lleoliad:

Conference Room 4B – Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Chwefror 2016

Amser: 11:00–13:00

## Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau:	Keith Baldwin Eric Gregory (Cadeirydd) Hugh Widdis David Melding AC, y Dirprwy Lywydd
Swyddogion:	Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc, a'r Swyddog Cyfrifyddu Dave Tosh, y Cyfarwyddwr Adnoddau Gareth Watts, Pennaeth Archwilio Mewnol Nicola Callow, Cyfarwyddwr Cyllid Matthew Coe, Swyddfa Archwilio Cymru Kathryn Hughes, Clerc y Pwyllgor Buddug Saer, Dirprwy Glerc y Pwyllgor Rheon Tomos, Sylwedydd
Ymddiheuriadau:	Ann-Marie Harkin, Swyddfa Archwilio Cymru

### 1.0 Eitem 1 – Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Rheon Tomos fel sylwedydd i'r cyfarfod. Ef yw Cadeirydd y pwyllgor archwilio yn Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ac mae'n aelod o bwyllgorau archwilio Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a Cymwysterau Cymru.

1.2 Datganodd Rheon ei fod yn hyfforddwr ar gyfer Tystysgrif CIFPA mewn Llywodraethu Corfforaethol a chwrs y sefydliad ar Gynnal Pwyllgor Archwilio Effeithiol yr oedd ychydig o swyddogion y Cynulliad wedi bod yn bresennol arno.

1.3 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau eraill.

## 2.0 Eitem 2 – Cofnodion a materion yn codi

*ACARAC (31) Papur 1 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2015*

*ACARAC (31) Papur 2 – Crynodeb o'r camau i'w cymryd*

2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod ar 11 Tachwedd 2015 a rhoddodd swyddogion y diweddariadau canlynol ar y camau a oedd heb eu cymryd.

2.2 O ran y camau gweithredu yn sgîl *Adolygiad Ymchwil Cyllid CIPFA (5.2)*, cadarnhaodd Nicola Callow fod y contractwr archwilio mewnol, TIAA, yn ymdrin â hwn. Roedd hi hefyd wedi bod mewn cysylltiad â pherson cyswllt o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a ddarparwyd gan y Cadeirydd, i drafod gwersi a ddysgwyd o ran y prosiect system cyllid newydd.

2.3 Ni chafwyd dim awgrymiadau mewn perthynas â'r camau gweithredu ar gyfer *Pwyllgor a swyddogion i roi gwybod i'r Cadeirydd am feysydd o ddiddordeb sylweddol lle y gallai cyflwynydd allanol ddarparu rhywfaint o werth ychwanegol (10.1)*. Byddai'r cam gweithredu hwn yn parhau ar agor i ddarparu ar gyfer unrhyw syniadau yn y dyfodol ac, yn y cyfamser, byddai'r Cadeirydd yn rhannu adolygiad 'gwersi a ddysgwyd' o'r Rhaglen Trawsnewid Cofrestru Etholiadol (ERTP) gyda'r pwyllgor.

2.4 Awgrymodd Hugh Widdis y dylid trefnu cyflwyniad er mwyn cael safbwynt allanol o ran newid cyfansoddiadol. Roedd y Cadeirydd a Claire yn croesawu hyn a gofynnwyd i'r tîm clericio wneud y trefniadau angenrheidiol.

2.5 Cytunodd y Cadeirydd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr *Adolygiad o Effeithlonrwydd Busnes (11.3)* yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

2.6 O ran y camau gweithredu ar *gynnydd y system newydd i gymryd lle system ariannol CODA (12.3)*, dywedodd Nicola fod fersiwn ddiwygiedig o'r achos busnes wedi cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, a byddai dadansoddiad diwygiedig o'r costau yn cael ei gyflwyno cyn bo hir. Roedd Keith Baldwin yn darparu cefnogaeth annibynnol.

2.7 Rhoddodd Dave Tosh wybod i'r Bwrdd fod drafft terfynol o'r *Adroddiad Adnoddau Dynol a chau prosiect y Gyflogres (13.1)* yn cael ei baratoi a byddai'n cael ei ddsbarthu maes o law.

- 2.8 O ran y cam gweithredu ar gyfer y *Bwrdd Rheoli i ailasesu risg Diogelwch Seiber (14.3)*, dywedodd Dave fod cynnydd da wedi cael ei wneud. Roedd adolygiad mewnol o ISO 27001 (Ardystiad mewn Rheoli Diogelwch Gwybodaeth) wedi darparu sicrwydd cryf mewn cysylltiad ag isadeiledd, ond wedi tynnu sylw at fylchau o ran polisi a'r angen cyffredinol i godi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad. Croesawodd aelodau'r Pwyllgor y defnydd arfaethedig o arbenigwr o Heddlu Gogledd Cymru i gynorthwyo gydag asesiad pellach o'r risgiau a wynebir gan y Comisiwn.
- 2.9 Byddai'r holl gamau gweithredu eraill yn cael eu cynnwys fel eitemau agenda yn y cyfarfod hwn, neu gyfarfodydd yn y dyfodol.

### **Camau i'w cymryd**

- *Y Cadeirydd i ddsbarthu'r adroddiad 'gwersi a ddysgwyd' yn sgîl y Rhaglen Trawsnewid Cofrestru Etholiadol.*
- *Cysylltu â'r Pennaeth Trawsnewid Strategol i drafod mynd at Ganolfan Llywodraethiant Cymru o ran presenoldeb ganddynt yng nghyfarfod ACARAC ym mis Mehefin neu fis Tachwedd i drafod materion cyfansoddiadol o safbwynt allanol, annibynnol.*
- *Dave i roi gwybodaeth am gynnydd o ran yr Adolygiad o Effeithlonrwydd Busnes yng nghyfarfod ACARAC ym mis Mehefin.*
- *Dave i ddsbarthu'r Adroddiad Adnoddau Dynol a chau prosiect y Gyflogres pan fydd ar gael.*

### **Archwilio Mewnol**

#### **3.0 Eitem 3 – Y wybodaeth ddiweddaraf am Archwilio Mewnol**

*ACARAC (31) Papur 3 – Adroddiad Diweddarau IA 2015–16*

*ACARAC (31) Papurau 4 a 5 – Monitro'r Argymhellion Archwilio Mewnol*

- 3.1 Rhoddodd Gareth Watts y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am waith archwilio a wnaed yn ddiweddar. Roedd yr archwiliadau ar Wasanaethau Dwyieithog Gwell ac ar Reolaeth Ariannol a Rheoli Cyllidebol yn gyflawn a byddent yn cael eu dosbarthu y tu allan i'r cyfarfod, unwaith y byddai ymatebion rheolwyr wedi dod i law. Mae gwaith ar Ddadansoddeg Data wedi'i drefnu ar gyfer diwedd mis Chwefror ac unwaith eto, roedd Gareth am ddsbarthu adroddiad hwn y tu allan i'r pwyllgor.
- 3.2 Roedd Claire Clancy a Dave Tosh wedi cymeradwyo papur yn amlinellu strwythur tîm Llywodraethu ac Archwilio diwygiedig yn ddiweddar. Er nad oedd wedi'i ddsbarthu i aelodau'r pwyllgor, byddai Gareth yn trafod ei gynnig yn ystod y sesiwn breifat rhwng aelodau'r pwyllgor a'r Pennaeth Archwilio Mewnol.

- 3.3 Yna rhoddodd Gareth y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am waith yr oedd ef a Kathryn Hughes wedi'i wneud ar y Fframweithiau Llywodraethu a Sicrwydd. Roeddent wedi cwrdd â Chyfarwyddwyr a Phenathiaid Gwasanaeth ac roeddent yn y broses o ddadansoddi'r tablau Mapio Sicrwydd a oedd wedi'u cwblhau, a byddai'r cynnydd arnynt yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Ebrill.
- 3.4 Gan gyfeirio'n benodol at yr archwiliad ymgysylltu â'r cyhoedd yn ddiweddar, anogodd y pwyllgor swyddogion i rannu arfer da a gwersi a ddysgwyd â phwyllgorau a Chomisiynwyr y Cynulliad yn y dyfodol.
- 3.5 Pan holwyd ef ynghylch nifer yr argymhellion a wnaed yn ystod ei gyfnod yn y Comisiwn, credai Gareth fod yr amrywiad o ran niferoedd o un flwyddyn i'r llall yn adlewyrchu'r gwahanol bynciau a archwiliwyd a swm y materion a nodwyd gyda'r pynciau gwahanol. Er enghraifft, gallai nifer fawr yr argymhellion yn 2014–15 i raddau helaeth gael ei briodoli i'r archwiliadau Recriwtio a Diogelwch. Bu 2012–13, o ganlyniad i newidiadau o ran trefniadau Archwilio Mewnol, yn flwyddyn o drawsnewid, a bu mwy o ffocws ar ddilyn argymhellion blynyddoedd blaenorol'.
- 3.6 Nododd y Cadeirydd fod prosesau Archwilio Mewnol ar gyfer monitro ac adrodd ar argymhellion bellach yn fwy syml a rhagweithiol, a dywedodd Claire ei bod hi'n hapus â'r dull cyfredol o waith Archwilio Mewnol sy'n canolbwyntio ar feysydd sydd â'r risg a'r pryder mwyaf, a fyddai weithiau'n arwain at nifer fawr o argymhellion.
- 3.7 Roedd yn fater calonogol iawn i'r aelodau nad oedd dim pryderon am unrhyw un o ymatebion y rheolwyr i argymhellion archwilio, na'r cynnydd ar yr argymhellion hynny.

### **Cam i'w gymryd**

- *Gareth i ddosbarthu adroddiadau archwilio ar Wasanaethau Dwyieithog, Rheolaeth Ariannol a Rheoli Cyllidebol ac ar Ddadansoddeg Data y tu allan i'r pwyllgor.*

#### 4.0 Eitem 4 – Yr adroddiadau archwilio mewnol diweddaraf

##### *ACARAC (31) Papur 6 – Rheolaethau Ariannol Allweddol*

- 4.1 Gwnaed archwiliad o'r Rheolaethau Ariannol Allweddol gan TIAA a rhoddwyd sgôr cryf. Dywedodd Gareth fod cyflenwad llawn o staff yn y tîm Cyllid wedi cynyddu cadernid a chryfder y rheolaethau a oedd ar waith yn sylweddol. Cymeradwyodd aelodau'r Pwyllgor y tîm Cyllid ar gadernid y rheolaethau.
- 4.2 Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn fodlon ar yr asesiad, a gobeithio y gallai osod rhywfaint o ddibyniaeth ar hyn yn ystod yr archwiliad o'r cyfrifon.
- 4.3 Sicrhawyd aelodau'r Pwyllgor, er gwaethaf y cyfyngiadau a nodwyd eisoes yn y system gyllid bresennol, fod y rheolaethau angenrheidiol ar waith.
- 4.4 Yna bu aelodau'r Pwyllgor yn cwestiynu dosbarthu gwybodaeth i bobl y tu allan i'r tîm cyllid. Rhoddodd swyddogion wybod i'r pwyllgor fod Cydlynwyr Cyllid ar gael ym mhob gwasanaeth a defnyddiwyd cyfarfodydd misol i rannu gwybodaeth, yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd gyda deiliaid cyllidebau i drafod materion o ran rhagweld a staffio.
- 4.5 Yn olaf, awgrymodd y Pwyllgor y dylai swyddogion edrych ar y broses sydd ar waith ar gyfer adennill gordaliadau.

#### 5.0 Eitem 5 – Y Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016–17

##### *ACARAC (31) Papur 7 – Strategaeth Archwilio Mewnol 2016–17*

- 5.1 Cyflwynodd Gareth ei dogfen strategaeth ar gyfer 2016–17 a fyddai'n newid, o bosibl, ar ôl i Gomisiwn newydd y Cynulliad gael ei benodi. Fel bob amser, byddai'n parhau i rannu enghreifftiau o arferion da a diwygio ei ffordd o weithio os oedd yn teimlo y byddai o fudd i waith archwilio mewnol.
- 5.2 Wrth ddisgwyl newid i gynnwys linc i'r protocol gweithio rhwng Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol, cymeradwyodd y Pwyllgor y strategaeth.

##### **Cam i'w gymryd**

- *Gareth i gyfeirio at y protocol gweithio rhwng Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol yn adran Siarter Archwilio Mewnol y strategaeth.*

#### **Archwilio allanol**

#### 6.0 Eitem 6 – Trosolwg o'r cyfrifon

##### *ACARAC (31) Papur 8 – Cyfrifon blynyddol 2015–16*

- 6.1 Cyflwynodd Nicola y papur hwn a dywedodd wrth y pwyllgor fod cyfres interim o gyfrifon wedi cael eu cyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru. Yn dilyn gweithdy a gynhaliwyd gan y Swyddfa ar gyfer Penaethiaid Adnoddau, byddai'n cael gweld cyfrifon interim gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

- 6.2 Holodd aelodau'r Pwyllgor sut y caiff tâl gwyliau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ei drin yn y cyfrifon, a chadarnhaodd Nicola y byddai'n diweddarau'r Pwyllgor ar ôl i gynnydd pellach gael ei wneud gyda Swyddfa Archwilio Cymru.
- 6.3 Trafodwyd y defnydd o'r Pierhead hefyd. Roedd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio'n aml ac mae'r gofod digwyddiadau yn llawn tan fis Mawrth 2018. Pan holwyd ynghylch y gwaith sy'n angenrheidiol i gynnal yr adeilad, cadarnhaodd swyddogion bod y blaengynllun gwaith cynnal a chadw ar gyfer y 10 mlynedd nesaf yn seiliedig ar gyngor arbenigol.
- 6.4 At ei gilydd, mae'r pwyllgor yn fodlon ar y diweddariad i'r Llythyr Rheoli 2014–15 a'r amserlen a nodir yn y papur.

### **Cam i'w gymryd**

- *Nicola i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut y caiff tâl gwyliau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad i drin yn y cyfrifon.*

### **7.0 Eitem 7 – Y wybodaeth ddiweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru**

*ACARAC (31) Papur 9 – Y wybodaeth ddiweddaraf am yr Archwiliad Allanol*

- 7.1 Cyflwynodd Matthew Coe bapur yn amlinellu cynnydd presennol archwiliad 2015–16, (gan gynnwys newidiadau i'r tîm archwilio a'r ffi archwilio arfaethedig), gwaith dilynol ar Lythyr 2014–15 a defnyddio'r Rhestr Wirio Cydymffurfio Twyll.
- 7.2 Y llynedd, cwblhawyd y Rhestr Wirio Cydymffurfio Twyll gan y Prif Weithredwr a'r Rheolwyr. Yn dilyn adolygiad o brosesau mewnol, cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai'r rhestr wirio yn cael ei defnyddio fel offeryn archwilio i gefnogi ei gwaith ac ni fyddai felly yn cael ei dosbarthu i Reolwyr na'r pwyllgor bob blwyddyn.
- 7.3 Mae nifer o faterion heb eu datrys yn ymwneud â Llythyr Rheoli 2014–15 o hyd, a chytunodd Swyddfa Archwilio Cymru i ddiweddarau'r pwyllgor am gynnydd y penderfyniadau.

### **Cam i'w gymryd**

- *Swyddfa Archwilio Cymru i sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am benderfyniadau ar bob mater heb ei ddatrys a nodwyd yn Llythyr Rheoli 2014–15 erbyn diwedd mis Chwefror, fel y gellir cyflwyno sefyllfa lawn ym mis Ebrill.*

### **8.0 Eitem 8 – Canlyniadau'r Cynllun Gweithredu a'r Arolwg o Effeithlonrwydd**

*ACARAC (31) Papur 10 – Arolwg o Effeithlonrwydd ACARAC – papur eglurhaol*  
*ACARAC (31) Papur 11 – Arolwg o Effeithlonrwydd 2015 – Adroddiad*

- 8.1 Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r tîm clericio ar weinyddu a dadansoddi'r arolwg effeithiolrwydd yn fewnol, a arweiniodd at arbed oddeutu £3,000.
- 8.2 Roedd y drafodaeth ar y canlyniadau yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol a nodwyd ar gyfer eu cryfhau ymhellach:
- rhyngweithio rhwng y Pwyllgor a Chomisiwn y Cynulliad a'r Comisiynwyr;
  - ystyried sut y mae gwaith ACARAC yn integreiddio â gwaith rheoli perfformiad ehangach y Comisiwn;
  - monitro'r proffil risg a chynnydd o ran rhaglenni a phrosiectau newid; ac
  - eglurder ar rôl ACARAC mewn perthynas â chymeradwyo cyfrifon a dysgu gwersi yn dilyn archwiliad 2014–15.
- 8.3 Cytunwyd y byddai'r diweddariadau rheolaidd ar waith y Comisiwn yn parhau i gael eu dosbarthu i aelodau'r pwyllgor. Yn dibynnu ar ffurf y Comisiwn newydd (ar ôl yr etholiad ym mis Mai), gellid trefnu cyfarfod rhagarweiniol gyda'r aelod newydd o'r pwyllgor. Awgrymodd yr Aelodau hefyd y dylai rhaglen gynefino strwythuredig gael ei sefydlu ar gyfer yr aelod newydd ac er mwyn cyfeirio at rôl ACARAC yn y rhaglen gynefino ar gyfer pob Comisiynydd newydd. Byddai'r tîm clericio yn cysylltu â thîm Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau.
- 8.4 Croesawodd y Pwyllgor hefyd yr awgrym y dylai adolygu'r Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Byddai'r adroddiad ar ei newydd wedd yn cynnwys crynodeb o statws rhaglenni a phrosiectau newid.
- 8.5 Ar y cyfan, roedd y Cadeirydd yn falch iawn gyda'r broses a'r canlyniadau cadarnhaol iawn, ac estynnodd longyfarchiadau i'w gyd-aelodau ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Byddai cynllun gweithredu yn cael ei ddsbarthu cyn bo hir.

### **Cam i'w gymryd**

– *Y tîm clericio i ddrafftio a dosbarthu cynllun gweithredu.*

## **9.0 Eitem 9 – Paratoi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor**

*ACARAC (31) Papur 12 – Adroddiad Blynyddol 2014–15*

- 9.1 Cafodd yr adroddiad hwn ei dderbyn gan y Comisiwn yn 2015. Byddai'r Cadeirydd yn paratoi drafft, i gynnwys canlyniadau'r arolwg effeithiolrwydd diweddar, a byddai'n ei ddsbarthu er mwyn cael cyfraniadau, ac i'w gymeradwyo cyn y cyfarfod ym mis Ebrill. Oherwydd y newid yn aelodaeth y Comisiwn, roedd

Claire yn ansicr ynghylch pryd y byddai'n briodol i'r Cadeirydd gyflwyno'r adroddiad blynyddol i Gomisiwn y Cynulliad.

### **Cam i'w gymryd**

- *Drafftio a dosbarthu'r Adroddiad Blynyddol mewn pryd i gyflwyno adroddiad drafft yng nghyfarfod ACARAC ym mis Ebrill.*

## **10.0 Eitem 10 – Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl**

*ACARAC (31) Papur 13 – Cylch Gorchwyl Mehefin 2015*

10.1 Yn dilyn cwrs hyfforddi diweddar, awgrymwyd y dylai fformat y Cylch Gorchwyl gael ei ddiwygio a'i ddosbarthu y tu allan i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo.

### **Cam i'w gymryd**

- *Adnewyddu cynnwys a fformat y Cylch Gorchwyl, ei ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor a'i gyhoeddi.*

## **11.0 Eitem 11 – Diweddarau'r pwyllgor ar ddigwyddiadau hyfforddiant diweddar a chydweithrediad rhwng archwilwyr a chyrrff adolygu eraill (Eitem lafar)**

11.1 Roedd y Cadeirydd wedi bod mewn sesiwn a drefnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio yng Nghymru. Canolbwyntiodd y sesiwn ar fapio sicrwydd, twyll ac adroddiadau blynyddol. Byddai'n dosbarthu adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar arfer gorau o ran cyfrifon blynyddol, ac yn rhoi cyflwyniad ar Adolygiad o Effeithlonrwydd yng nghyfarfod nesaf y Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio.

11.2 Roedd swyddogion y Cynulliad wedi bod ar gwrs a gynhaliwyd gan CIFPA ar Bwyllgorau Archwilio Effeithiol. Roedd y cwrs, a fynychwyd gan amrywiaeth o bobl o Gadeiryddion i aelodau anweithredol yn darparu sicrwydd pellach ynghylch yr arferion da sydd eisoes ar waith yn y Cynulliad. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn dilyn y cwrs:

- Dylai camau adolygu / diweddarau'r cylch gorchwyl presennol fod yn haws i'w defnyddio a chyda llai o jargon.
- Dylid diweddarau aelodau'r Pwyllgor drwy barhau i ddosbarthu unrhyw ddogfennau er gwybodaeth, e.e. Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, diweddariadau'r Prif Weithredwr ac ati.
- Dulliau gwahanol o hunanasesu e.e. graddfa 5-pwynt.
- Gan ganolbwyntio ar y Datganiad Llywodraethu, ym mhob cyfarfod, dylid gwirio pob eitem ar yr agenda i asesu unrhyw effaith ar y Datganiad Llywodraethu.



- Ar ddiwedd pob cyfarfod, aelodau i gael cyfle i ychwanegu unrhyw fater o ran eitemau penodol a drafodwyd.

- 11.3 Dywedodd Gareth wrth y pwyllgor am gyfarfod diweddar gyda'r Pennaeth Archwilio yn Llywodraeth Cymru, ble y bu'n rhannu gwybodaeth am Fframwaith Sicrwydd y Cynulliad a'n dull gweithredu o ran y Datganiad Llywodraethu. Yn ystod 2016–17, rhaid i Gareth gwblhau Adolygiad Sicrhau Ansawdd Allanol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorffen ei Hadolygiad yn ddiweddar felly roedd yn gallu cael copi er gwybodaeth.
- 11.4 Byddai Gareth hefyd yn mynd i Fforwm Rhyngseneddol yn yr Alban ym mis Chwefror, i rannu enghreifftiau o arfer gorau a dulliau o gynllunio gwaith archwilio. Roedd yn bwriadu trafod dulliau gweithredu o ran gwaith archwilio diogelwch seiber gyda'i gydweithiwr cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon a chwrdd â'i gydweithiwr yn yr Alban i ddeall arferion o ran archwilio treuliau Aelodau.

### **Cam i'w gymryd**

- *Y Cadeirydd i ddosbarthu adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar arfer gorau o ran cyfrifon blynyddol.*

### **Llywodraethu'r Comisiwn**

#### **12.0 Eitem 12 – Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid**

*ACARAC (31) Papur 14 – Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyllid*

- 12.1 Cyflwynodd Nicola y papur hwn a oedd yn nodi'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2015–16.
- 12.2 Roedd y Pwyllgor yn croesawu cynnwys llythyr a anfonwyd gan y Dirprwy Lywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac yn canmol y Cynulliad am ei berfformiad o ran talu'n brydlon.
- #### **13.0 Eitem 13 – Adroddiad ar Risgiau Corfforaethol**
- ACARAC (31) Papur 15 – Adroddiad ar Risgiau Corfforaethol*
- ACARAC (30) Papur 16 – Atodiad A – Crynodeb o Risgiau Corfforaethol*
- ACARAC (30) Papur 17 – Atodiad B – Risgiau Corfforaethol a nodwyd*
- 13.1 Cyflwynodd Dave y papur risg nad oedd ynddo newidiadau mawr i adrodd yn eu cylch. Mewn cyfarfod ar 25 Ionawr cyflwynwyd y trefniadau ar gyfer trosglwyddo i'r Pumed Cynulliad i'r Bwrdd Rheoli, lle mae risgiau a materion yn cael eu rheoli drwy ffrydiau gwaith penodol.

- 13.2 Cytunodd Dave i ddiwygio geiriad y risg o ran enw da mewn perthynas â chanfyddiadau staff y Comisiwn yn ystod y cyfnod trosglwyddo i'r Pumed Cynulliad (cyf CAMS20).
- 13.3 Croesawodd y Pwyllgor ffordd aeddfed y Comisiwn o adolygu'r gofrestr risgiau ac o gynnwys tabl sy'n dangos cyfeiriad y daith, ond cwestiynodd broffil statig y risgiau.
- 13.4 Roedd Claire yn gwerthfawrogi'r sylwadau ynghylch aeddfedrwydd y sefydliad wrth adolygu risgiau gwasanaeth a chorfforaethol, ac ychwanegodd fod cynnal proffil statig yn cymryd llawer iawn o ymdrech ar draws y sefydliad i sicrhau bod y rheolaethau mor effeithiol ag y gallent fod. Caiff camau gweithredu a rheolaethau lliniaru a oedd yn rhoi'r lefel angenrheidiol o sicrwydd i Claire, y rheolwyr ac ACARAC, eu monitro'n rheolaidd.

### **Cam i'w gymryd**

- *Ystyried geiriad risgiau o ran enw da mewn perthynas â chanfyddiadau staff y Comisiwn yn ystod y cyfnod trosglwyddo i'r Pumed Cynulliad (cyf CAMS20).*

### **14.0 Eitem 14 – Archwiliad beirniadol o un risg a nodwyd**

#### *ACARAC (31) Papur 18 – Capasiti Corfforaethol*

- 14.1 Cyflwynodd Dave yr archwiliad o'r risg ar gapasiti corfforaethol. Mae'r Bwrdd Rheoli yn adolygu'r broses gynllunio capasiti corfforaethol bob chwe mis a byddai'r Adolygiad o Effeithlonrwydd Busnes yn cyfrannu at y gwaith hwn.
- 14.2 Roedd y Pwyllgor yn cwestiynu amcanion y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, a'r cynlluniau ar gyfer yr arian y gellid ei arbed.
- 14.3 Cadarnhaodd Dave y byddai'r Pumed Cynulliad yn cyflwyno heriau anhysbys ar gyfer y dyfodol. Gallai pwerau newydd a chyfyngiadau cyllidebol posibl hefyd fynnu llawer gan reolwyr, a dyna'r rheswm pam mae adolygiad o sgiliau, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyfredol mor bwysig.
- 14.4 Roedd Claire wedi mynd i gyfarfod â'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA) yn San Steffan yn ddiweddar. Roedd yn amlwg o'r trafodaethau fod Comisiwn y Cynulliad yn ddigon ffodus i gael perthynas waith gref a chadarnhaol â'r Bwrdd Taliadau. Byddai angen i waith pwyllgor o'r radd flaenaf tymor cyfredol y Cynulliad ystyried y ffordd y byddai Aelodau'r Pumed Cynulliad yn dymuno gweithio.

### **15.0 Eitem 15 – Papurau i'w nodi ac unrhyw fater arall**

#### *ACARAC (31) Papur 19 – Crynodeb o'r ymadawiadau*

### *ACARAC (31) Papur 20 – Blaenraglen waith*

- 15.1 Nododd y Pwyllgor dri achos o ymadael o'r gweithdrefnau caffael arferol.
- 15.2 Ymhellach i bwyntiau a godwyd yn yr arolwg effeithiolrwydd, byddai pob cyfarfod yn y dyfodol yn cael ei ymestyn 30 munud a byddai dyddiad ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf yn cael ei gadarnhau.
- 15.3 Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb am eu papurau, a'u cyfraniadau. Rhoddodd ddiolch arbennig i David Melding am ei ymroddiad a'i gyfraniad at waith y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf.
- 15.4 Croesawodd hefyd sylwadau Rheon Tomos, ac roedd yn annog pobl eraill i fod yn sylwedyddion mewn pwyllgorau archwilio.

### **Camau i'w cymryd**

- *Y tîm clericio i ychwanegu adroddiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol at y Flaenraglen Waith – yn y cyfarfod cyntaf ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.*
- *Ymestyn pob cyfarfod yn y dyfodol 30 munud.*
- *Cytuno ar ddyddiad y cyfarfod ym mis Gorffennaf ac anfon gwahoddiadau i'r cyfarfod.*
- *Casglu adborth gan Rheon Tomos ar ddysgu cyfunol yn sgîl ei bresenoldeb mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Archwilio mewn sefydliadau eraill.*

### **Sesiwn breifat**

Cynhaliodd aelodau'r Pwyllgor sesiwn breifat, ac roedd Gareth Watts yn bresennol ynddi. Ni chymerwyd cofnodion o'r cyfarfod.

Disgwylir i'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal ar 25 Ebrill 2016.